

Natalizumab ar gyfer trin sglerosis ymledol difrifol sy'n ailwaelu-dychwelyd ac sy'n esblygu yn gyflym

21 Mai 2024

Mae natalizumab (Tysabri neu feddyginiaeth fiodebyg) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer sglerosis ymledol gweithredol iawn atglafychol-ysbeidiol mewn oedolion os:

- mai sglerosis ymledol atglafychol-ysbeidiol difrifol sy'n datblygu'n gyflym ydyw, a ddiffinnir gan y canlynol:
 - 2 achos o ailwaelu neu fwy yn ystod y flwyddyn flaenorol, a
 - thystiolaeth MRI sylfaenol o weithgarwch clefyd.

Os nad ydych yn gymwys i gael natalizumab ond eich bod eisoes yn ei gael, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler [ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [tudalen we y GIG ar sglerosis ymledol](#) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Cymdeithas Sglerosis Ymledol](#), 0808 800 8000
- [Ymddiriedolaeth Sglerosis Ymledol](#), 0800 032 3839

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm [Healthwatch](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to [Notice of rights](#).

ISBN: 978-1-4731-9498-4